

CYNGOR SIR FYNWY

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Llun, 11eg Gorffennaf, 2022, 2.00 pm

CYNGHORWYR YN BRESENNOL: Cynghorydd Sirol: Martyn Groucutt, David Jones, Jayne McKenna, Phil Murphy, Maria Stevens, Laura Wright

Cynghorydd Sirol: C. Andrews, R. Clark

P. James

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Nikki Wellington	Rheolwr Cyllid
Gareth Peel	
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

H. Morgan

1. Ethol Cadeirydd

Etholwyd y Cynghorydd Sir M. Groucutt fel Cadeirydd.

2. Apwyntio Is-Gadeirydd

Apwyntiwyd y Cynghorydd Sir D. Jones fel Is-Gadeirydd

3. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant wedi eu derbyn.

4. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Waddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Ionawr 2022 wedi eu cadarnhau fel cofnod cywrain.

5. Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Waddol Ysgol Fferm Sir Fynwy ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31ain Mawrth 2022.

Roedd y Pwyllgor wedi derbyn Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Waddol Ysgol Fferm Sir Fynwy ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31ain Mawrth 2022.

Wrth wneud hyn, nodwyd fod yna gais twyllodrus wedi ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn y blynyddoedd diwethaf, a oedd yn werth £2590. Roedd manylion yr achos wedi eu trosglwyddo i Heddlu Gwent er mwyn cynnal ymchwiliad troseddol. Bydd y swm yn cael ei ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth drwy gyfrwng cynllun talu.

CYNGOR SIR FYNWY

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Llun, 11eg Gorffennaf, 2022, 2.00 pm

Roedd archwilyr Cyngor Sir Fynwy yn ymwybodol o hyn, ac o ganlyniad, mae gweithdrefnau cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer y broses gais wrth i ni symud ymlaen.

Cynigwyd cymeradwyo'r cyfrifon.

6. Strategaeth Fuddsoddi a Chronfa Ymddiriedolaeth Waddol Ysgol Fferm Sir Fynwy 2022/23.

Roeddem wedi derbyn y Strategaeth Fuddsoddi a Chronfa ar gyfer Ymddiriedolaeth Waddol Ysgol Fferm Sir Fynwy 2022/23.

Roeddem wedi nodi'r adroddiad.

7. Ystyried a dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem o fusnes canlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygir, ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth esempt fel sydd wedi ei ddiffinio ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o'r Atodlen 12A i'r Ddeddf. (Atodir barn y Swyddog Priodol).

Roeddem wedi gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem ganlynol o fusnes, a hynny yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygir, ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth esempt fel sydd wedi ei diffinio ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

8. Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ynglŷn â cheisiadau sydd wedi eu derbyn gan y Gronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23.

Roeddem wedi ystyried dau gais a dderbyniwyd gan y Gronfa Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Cytunodd yr Ymddiriedolaeth y dylid cymeradwyo'r ddau gais, a hynny'n amodol ar dderbyn yr anfonebau priodol a thystiolaeth ohonynt yn mynychu.

9. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Llun, 17eg Hydref 2022 am 11.00am.